Hawdd ei Ddeall

Abertawe Hawliau Dynol | Swansea Human Rights

# Canllaw i'ch Hawliau Dynol

## Gwneud Abertawe yn Ddinas Hawliau Dynol 1af yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Abertawe**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'**Hawliau yn eich Canllaw Poced**'.

**Awst 2022**

One Swansea Un Abertawe

Cyngor Abertawe Swansea Council

# Beth ydy Hawliau Dynol?




Rheolau i amddiffyn pobl ydy Hawliau Dynol.



Mae gan bob person yn y byd Hawliau Dynol.




Dydyn nhw ddim yn cael eu cymryd oddi arnoch chi. Weithiau maen nhw'n gallu cael eu cyfyngu – i'ch amddiffyn chi, neu eraill.




Mae rhai o'n Hawliau Dynol yn cael eu diogelu gan gyfraith y DU ac mae eraill yn cael eu diogelu gan gyfraith rhyngwladol.



# Pa Hawliau sydd gen i yn y DU?




Rhaid inni ddilyn cyfraith rhyngwladol o’r enw y **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**. Mae’r gyfraith yma yn dweud:



**Mae gennych chi hawl i fywyd**

Does neb yn gallu ceisio rhoi diwedd ar eich bywyd. Fe ddylai pobl fel y Llywodraewth a’r Heddlu feddwl am eich hawl i fywyd wrth wneud penderfyniadau sydd yn gallu effeithio arnoch chi.





**Mae gennych chi hawl i fod yn rhydd o artaith a chreulondeb**

Does gan neb yr hawl i'ch anafu. Rhaid i bobl fel yr Heddlu eich amddiffyn os ydych chi yn cael eich trin fel hyn.



**Mae gennych chi hawl i fod yn rhydd o gaethwasiaeth**

Does neb yn gallu eich trin fel caethwas. Dydych chi ddim yn gallu cael eich gorfodi i weithio am ddim.



**Hawl i ddiogelwch a rhyddid**

Mae gennych chi yr hawl i fod yn rhydd. Ddylech chi ddim cael eich arestio rna'ch cloi i fyny am ddim rheswm da.



## Mae gennych chi hawl i dreial teg

Os ydych chi yn cael eich arestio ac yn mynd i'r llys, rydych chi yn ddieuog hyd nes y byddwch yn cael eich profi yn euog.



Mae gennych chi yr hawl i amddiffyn eich hun. A chael help cyfreithiol. Dim ond llys sydd yn gallu dweud eich bod yn euog o drosedd.




## Dim cosb heb gyfraith

Rydych chi yn euog o drosedd dim ond os oedd yn erbyn y gyfraith pan wnaethoch chi ei gyflawni.





## Mae gennych chi hawl i'ch bywyd preifat

Mae gennych yr hawl i fyw eich bywyd yn eich ffordd chi. Heb  bobl eraill yn ceisio dweud wrthych chi sut i fyw.



## Mae gennych chi hawl i feddwl a chredu beth rydych chi eisiau

Mae gennych yr hawl i gredu beth rydych chi eisiau. Dydy eraill ddim yn gallu dweud wrthych chi beth i'w gredu.



## Mae gennych chi hawl i fynegi eich barn

Mae gennych chi hawl i gael eich barn a'ch meddyliau eich hun. Ac i ddweud wrth eraill beth ydyn nhw.





**Mae gennych chi hawl i gymryd rhan mewn protestiadau heddychlon**

Mae gennych chi hawl i ddod gyda phobl eraill mewn ffordd heddychlon, i sefyll i fyny dros beth rydych chi'n gredu ynddo.



**Mae gennych chi hawl i briodi a chael plant**

Mae gennych chi hawl i briodi a chael plant.



**Fe ddylech chi gael eich amddiffyn rhag triniaeth annheg**

Mae gan bawb hawliau cyfartal. Ddylech chi ddim cael eich trin yn annheg  oherwydd pethau fel eich oed, credoau neu anabledd.





## Mae gennych chi hawl i fwynhau'r pethau sydd yn eiddo i chi

Does neb yn gallu ymyrryd gyda'r pethau sydd yn eiddo i chi nac yn y ffordd rydych chi yn eu defnyddio  heb reswm da iawn.



## Mae gennych chi hawl i addysg

Mae gennych chi yr hawl i ddefnyddio ysgolion a cholegau.





## Mae gennych chi hawl i gymryd rhan mewn etholiadau

Etholiadau ydy pan rydych chi yn pleidleisio dros rhywun neu rhywbeth. Rhaid iddyn nhw fod yn rhydd ac yn deg. Rhaid cadw pwy rydych chi'n pleidleisio drostyn nhw yn gyfrinachol.



## Dim cosb eithaf

Dydych chi ddim yn gallu cael eich dedfrydu i farwolaeth am unrhyw drosedd.

# Beth mae hyn yn ei feddwl imi?



Mae gan bobl sydd yn gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, fel y Cyngor, yr Heddlu neu'r GIG, ddyletswydd yn ôl cyfraith y DU i amddiffyn yr hawliau yma.



Mae hyn yn bwysig, mae'n meddwl eich bod yn gallu:

- Siarad i fyny.
- Siarad gyda'ch gwasanaethau am barchu ac amddiffyn eich hawliau dynol.



- Gweithio gyda gwasanaethau i ddarganfod gwell atebion heb fod angen mynd i'r llys neu ddefnyddio cyfreithiwr.

# Beth rydyn ni yn ei wneud yn Abertawe?



Mae Abertawe yn dod yn Ddinas Hawliau Dynol.




Mae hyn yn meddwl bod ein gwasanaethau cyhoeddus wedi addo rhoi Hawliau Dynol yng nghanol popeth maen nhw yn ei wneud.




Rhaid iddyn nhw wneud hyn yn ôl y gyfraith.





Fe fyddwn ni yn parhau i edrych ar sut rydyn ni'n gallu gwella deddfau Hawliau Dynol yma yn Abertawe.

Rydyn ni eisiau i Abertawe fod yn ddinas lle:




- mae pawb yn gyfartal.




- mae pobl yn deall eu hawliau ac yn parchu hawliau pobl eraill.



- mae pobl yn cymryd rhan yn y penderfyniadau sydd yn effeithio arnyn nhw.



Rydyn ni'n gweithio i wella Hawliau Dynol drwy edrych ar ôl yr amgylchedd. A chymryd camau i weithredu ar yr argyfwng hinsawdd.



Rydyn ni'n meddwl am Hawliau Plant yn ein holl waith. Ac fe fyddwn ni yn parhau i weithio i wella hyn.



# Sut i gymryd rhan

Rydych chi'n gallu cynnig eich cefnogaeth i helpu Abertawe i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol gyntaf yng Nghymru:




Ewch i'n gwefan a chliciwch y botwm coch **Gwneud eich Addewid Hawliau Dynol**:

[www.abertawe.gov.uk/ddinashawliaudynol](www.abertawe.gov.uk/ddinashawliaudynol)



Neu e-bostiwch ni:

[humanrights@swansea.gov.uk](mailto:humanrights@swansea.gov.uk)



Neu ffoniwch ni: 01792 636000



# Helpwch ni i edrych ar ôl ein hamgylchedd




Rydych chi'n gallu addo ein helpu ni i edrych ar ôl ein hamgylchedd ar ein **gwefan**:

[www.abertawe.gov.uk/addewidhinsawdd](www.abertawe.gov.uk/addewidhinsawdd)



**Neu drwy ysgrifennu atom:**
Newid Hinsawdd
Cyngor Abertawe
Canolfan Ddinesig
Oystermouth Road
Abertawe
SA1 3SN

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Am ragor o wybodaeth am Hawliau

**Tîm Hawliau Plant Cyngor Abertawe**

**Gwefan:** www.swansea.gov.uk/uncrc

**E-bost:** UNCRC@swansea.gov.uk

**Ffôn:** 07929 719528

**Sefydliad Hawliau Dynol Prydeinig**

**Gwefan:** www.bihr@org.uk

**Ffôn:** 020 3039 3646

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**Gwefan:** https://comisiynyddph.cymru

**E-bost:** ask@olderpeoplewales.com

**Ffôn:** 03442 640 670



**Comisiynydd Plant Cymru**

**Gwefan**: www.complantcymru.org.uk

**E-bost:** advice@childcomwales.org.uk

**Ffôn**: 01792 765600

**Comisiynydd Cenmdlaethau'r Dyfodol Cymru**

Yn gallu helpu pobl i ddefnyddio'r gyfraith i holi gwasanaethau cyhoeddus am gynlluniau ar gyfer y dyfodol

**Gwefan**: www.futuregenerations.wales/cy

**E-bost**: contactus@futuregenerations.wales

**Ffôn**: 02921 677 400



**Uwch Gomisiynydd y CU ar Hawliau Dynol**

Rhagor am hawliau dynol sydd wedi'u hamddiffyn gan gyfraith rhyngwladol:

**Gwefan**: www.ohchr.org

**E-bost**: ohchr-InfoDesk@un.org

**Ffôn**: +41 22 917 9220

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru**

**Gwefan**:

https://www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru



# Am gyngor ar hawliau

**Gwasanaeth Cefnogi Cynghori a Chydraddoldeb**

**Gwefan:** www.equalityadvisoryservice.com
**Ffôn:** 0808 800 0082
**Testun:** 0808 800 0084

**Clinig Cyfraith Abertawe**

Cyngor am ddim i am broblemau cyfreithiol

**Gwefan:** www.swansea.ac.uk/cy/y-gyfraith/clinigygyfraith
**E-bost:** lawclinic@swansea.ac.uk
**Ffôn:** 01792 295387

**Canolfan Gyfreithiol Plant**

**E-bost:** childrenslegalcentre@swansea.ac.uk
**Cyfeiriad:** Tecniwm Digidol
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP

